CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**
**☐ 01766 832 398 ☐ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# AGENDA Cyfarfod Arferol

**● 11 / 12 / 2023 7.00pm ● Siambr y Cyngor ac ar-lein**

---

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]**

**NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd arlein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR**
**CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar:**

https://us02web.zoom.us/j/82456852432?pwd=aGEyaTduOXNkT1ovekdxVGcxeVp1Zz09

Meeting ID: 824 5685 2432
Passcode: 304576

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 11eg RHAGFYR 2023.**

## AT GADEIRYDD A CHYNGHORWYR CYNGOR TREF FFESTINIOG

**FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL**
**CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**11eg Rhagfyr 2023**

**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD**
**ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO.**


Noder bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

**NODER**
**Cyn cychwyn y cyfarfod ffurfiol, bydd cyfweliad yn cael ei gynnal ar ôl derbyn ffurflen gais gan breswylydd lleol i ddod yn Gynghorydd Tref. Cynhelir hwn am 6.30pm**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datganiad o Ddiddordeb** - Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi a'i hanfon at y Clerc pan yn briodol. |
| **3.** | | Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. **Dalier Sylw: trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |
| **4.** | | **Cyfetholiad Cynghorydd Newydd**<br>Ystyried cais i ddod yn gynghorydd tref, ar ôl cyfweliad a gynhaliwyd cyn dechrau'r cyfarfod ffurfiol. |
| **5.** | | **Diweddariad gan yr Heddlu**<br>I dderbyn unrhyw adroddiad gan yr Heddlu. |
| **6.** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud).<br><br>**John Armstrong, Engie yn mynychu. Mae dogfen briffio ynghlwm i chi ei hystyried a bydd Mr Armstrong yna teb unrhyw wgestiynau sydd gennych yn y cyfarfod.** |
| **7.** | | **Derbyn a chadarnhau Cofnodion**<br><br>i. Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor – 13 Tachwedd 2023 |
| **8.** | | **Ymateb Cyngor Gwynedd mewn perthynas â llinellau melyn Dolrhedyn**<br>Derbyn ymateb y Cyngor Sir mewn perthynas â'r uchod, fel a ganlyn: |

| | | |
|---|---|---|
| | | *"Annwyl Clerc*<br><br>*Mae'r broses o newid y cyfyngiadau parcio yn medru fod yn broses hir iawn. Yn bennaf oherwydd y camau cyfreithiol sy'n ofynnol i ni fel gwasanaeth ei ddilyn.*<br><br>*Er hynny, hoffwn eich hysbysu bod prosesau yn ei le i ddiddymu'r llinellau melyn o'r lleoliad canlynol ac wrth gwrs bydd fwy o wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r cyngor tref maes o law.*<br><br>*Gobeithio bod y canlynol yn dderbyniol i chwi.*<br><br>*Yn gywir*<br><br>*Iwan ap Trefor*<br>*Rheolwr Traffig a Phrosiectau/ Traffic and Project Manager"* |
| **9.** | | **Cais am Gymorth Ariannol**<br><br>Ystyried cais am gymorth ariannol gan Glwb Nofio PBP. Copi o'r ffurflen gais, a dogfennau atodol ynghlwm. |
| **10.** | | **Datblygiadau yn yr ardal**<br><br>Trafod unrhyw ddatblygiadau yn yr ardal dros y mis diwethaf. |
| **11.** | | **Taliadau a Derbyniadau**<br><br>Cymeradwyo taliadau a wnaed / i'w gwneud ym mis Rhagfyr 2023. |
| **12.** | | **Clwb Ieuenctid**<br>Derbyn ebost gan Sion Bryn ar y Gwasanaeth Ieuenctid, fel a ganlyn:<br><br>*"Bore da*<br><br>*Sud ydach chi,*<br><br>*Yn dilyn sgwrs dipyn o wythnosau yn ôl yn am Llanffestinig rydym yn dal yn methu a dennu pobl ifanc yno – mi wnaeth yna 6 ddod i`r Van Gemau a dyna fo ddim nol wythnos wedyn.*<br><br>*Rydym yn meddwl ei newid i Blaenau am Gyfnod rŵan a cheisio eto yn Llan yn y dyfodol – gobeithio y bydd hyn yn iawn hefo chi.*<br><br>*Mi wnâi holi y ganolfan pryd y mae ar gael os yw hyn yn iawn gyda chi*<br><br>*Diolch* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Bryn"*<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid bellach wedi trefnu noson ychwanegol yn y Ganolfan, ar nos Fercher. |
| **13.** | | **Maes Parcio Pant-yr-Ynn**<br><br>Ystyried llunio maes parcio ger Perllan Pant-yr-Ynn. |
| **14.** | | **Rhybudd o Gynnig**<br><br>Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Mark Thomas i ystyried y Cyngor Tref yn trefnu Cinio i'r Henoed. |
| **15.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br><br>**1. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**<br>Rhif Cais / Application No.: C23/0912/03/DT<br>Lleoliad / Location: Mount Pleasant, Talywaenydd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3NA<br>Bwriad / Proposal: Estyniad cefn arfaethedig.<br>Proposed rear extension.<br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=34693&language=cy<br><br>**2. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**<br><br>**Rhif Cais:** C23/0745/03/LL<br><br>**Lleoliad:** Gorsaf Ambiwlans Blaenau Ffestiniog LL31 3UF<br><br>**Bwriad:** Gosod Paneli Ffotofoltaig ar y To |
| **16.** | | **Barn Archwilio – Archwiliad 2021-2022**<br>Ystyried y farn archwilio a anfonwyd at y Cyngor Tref, amrywiol ddogfennau ynghlwm er gwybodaeth:<br>i. Ebost – cais am wybodaeth ychwanegol gan James Powell<br>ii. Ebost yn ateb James Powell – esboniad o bwyntiau<br>iii. Rhestr dogfennau anfonwyd i James Powell<br>iv. Audit Wales – Audit Completion Notice<br>v. Ffestiniog TC 2021-22<br><br>Mae'r papurau hyn eisoes wedi eu hanfon atoch ar gyfer Cyfarfod Anarferol y Cyngor a gafodd ei ohirio ar 1af Rhagfyr 2023. Bydd copïau caled ar gael ar y noson hefyd. |
| **14.** | | **Materion er Gwybodaeth**<br><br>Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol. |
| | | |



Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref
DYDDIAD: 5ed Rhagfyr 2023